18/03/2021

Cyngor Cymuned Aberffraw
Datganiad - Neuadd Bentref Aberffraw

Datganiad Pellach Cyngor Cymuned Aberffraw ar reoli Neuadd Bentref Aberffraw.

Y rheswm i gymeryd rheolaeth o'r Neuadd Bentref yn ôl oddi ar y cyn Bwyllgor Rheoli Neuadd y Pentref (VHMC) ydi i ddiogelu Neuadd y Pentref ar gyfer y gymuned gyfan.

Newidiodd y cyn-VHMC fanylion Ymddiriedolwyr y Neuadd Bentref heb yn wybod i'r Cyngor Cymuned - yr Ymddiriedolwyr ers 1965. Pan ddarganfuwyd hyn gan y Cyngor Cymuned fe wnaethant geisio a dilyn cyngor cyfreithiol, a diddymu'r hen VHMC er mwyn dod a rheolaeth y Neuadd Bentref yn ôl i'r Cyngor Cymuned ar ran y gymuned gyfan.

Pe na bai hyn wedi i'w wneud, byddai'r Neuadd Bentref wedi bod yn nwylo grŵp o bobl anetholedig nad oeddent yn atebol i'r etholwyr.

Mae'r Cyngor Cymuned yn aros am ganlyniad achos cyfreithiol, gan fod y cyn VHMC wedi methu â chydymffurfio hyd yma â chyfarwyddiadau tîm cyfreithiol arbenigol dwyieithog (Cymraeg / Saesneg) y Cyngor Cymuned i drosglwyddo'r holl gofnodion, archwiliadau, cyfrifon a manylion ariannol. fel sy'n ofynnol gan y Comisiwn Archwilio.

Mae'r Cyngor Cymuned yn edrych ymlaen at ddyfodol Neuadd y Pentref I fod ar gael at ddefnydd y gymuned gyfan.